***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 311 (Cy.33)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Chwefror 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Chwefror 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Mawrth 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009 sy'n dod i rym ar 11 Mawrth 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio rheoliad 1 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997**

**2.** Yn y diffiniad o "NHS sight test fee" yn rheoliad 1(2) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**) —

(a) yn lle "£53.34" rhodder "£54.67"; a

(b) yn lle "£19.32" rhodder "£19.80".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Chwefror 2009

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 er mwyn cyfeirio at godiad yn y ffioedd ar gyfer profion golwg GIG o 2.5%.